

> Safonau Ymarfer Osteopathig

Ar waith o 1 Medi 2012

> Cynnwys

| | | |
|----------|--|-----------|
| | Cyflwyniad | 3 |
| A | Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf | 4 |
| B | Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad | 9 |
| C | Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer | 12 |
| D | Proffesiynoldeb | 17 |
| | Geirfa | 26 |
| | Datganiad o newidiadau | 28 |
| | Mynegai | 29 |

Mae'n rhaid i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol bennu'r safonau hyfedredd sy'n ofynnol ar gyfer osteopathi cymwys sy'n ymarfer yn ddiogel, yn unol ag Adran 13 o Ddeddf Osteopathiaid 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'n rhaid i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol gyhoeddi Cod Ymarfer sy'n pennu'r safonau ymddygiad a'r cymwysterau a ddisgwylir gan osteopathiaid a'r cyngor a roddir ym maes osteopathi, yn unol ag Adran 19 o Ddeddf Osteopathiaid 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Cyflwyniad

Mae'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* yn cwmpasu'r *Safonau Hyfedredd* a'r *Cod Ymarfer* ar gyfer osteopathiaid. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r holl safonau ymddygiad a chymhwysedd sy'n ofynnol gan osteopathiaid er mwyn hyrwyddo iechyd a lles cleifion a'u hamddiffyn rhag niwed.

Mae'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* yn ganolog i'r gofynion hyfforddiant osteopathig ac er mwyn cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae'r ddogfen yn amlinellu ymarfer osteopathig sy'n ddiogel, cymwys a moesegol.

Fformat

Yn y ddogfen hon, mae'r Safonau Hyfedredd yn las a'r Cod Ymarfer yn biws.

Mae'r safonau, sy'n ymddangos yn y golofn chwith, yn amlinellu'r gofynion. Mae'r canllawiau ategol, sydd yn y golofn dde, yn amlinellu sut y gellir cyflawni'r gofynion hyn. Nid ydynt yn ganllawiau cyflawn.

Mae'r safonau a'r canllawiau wedi'u seilio ar bedair thema:

A Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf

B Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

C Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer

D Proffesiynoldeb.

Mae'r termau 'bydd' a 'rhaid' yn ymddangos gydol y ddogfen. Disgwylir i osteopathiaid gydymffurfio lle bynnag y defnyddir y rhain. Os na wneir hyn, gallant fod mewn perygl o wynebu achos addasrwydd i ymarfer.

Defnyddir y term 'dylid/dylech' yn y canllawiau i ddynodi sut y gellir cyflawni safon. Fe'i defnyddir hefyd lle nad yw'r ddyletswydd neu'r egwyddor berthnasol yn berthnasol ym mhob sefyllfa neu amgylchiadau, neu lle gall ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr osteopath effeithio ar ei allu i gydymffurfio â'r canllawiau. Rhaid i osteopathiaid ddefnyddio'u barn broffesiynol yn ôl yr amgylchiadau dan sylw.

Defnyddir y term 'gall' yn y canllawiau i ddynodi bod gan osteopathiaid ddewis o ran cymryd camau penodol neu beidio. Rhaid i osteopathiaid ddefnyddio'u barn broffesiynol yn ôl yr amgylchiadau dan sylw.

A Cyfathrebu a phartneriaeth â'r claf

Mae'r berthynas therapiwtig rhwng osteopath a'r claf yn seiliedig ar ymddiriedaeth a hyder. Rhaid i osteopathiaid gyfathrebu'n effeithiol â chleifion er mwyn sefydlu a chynnal perthynas foesegol.

SAFON HYFEDREDD

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|---|--|
| A1 Rhaid bod gennych sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu tra datblygedig ynghyd â'r gallu i addasu strategaethau cyfathrebu sy'n addas i anghenion penodol y claf. | <p>1. Dylai'ch sgiliau gynnwys:</p> <p>1.1. Ystyried dulliau a ffurfiau cyfathrebu.</p> <p>1.2. Dewis dulliau cyfathrebu effeithiol.</p> <p>1.3. Defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu ar gyfer cleifion unigol.</p> <p>Gweler hefyd: A2-A6</p> |

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|---|---|
| A2 Gwrando ar gleifion a pharchu eu pryderon a'u dymuniadau. | <p>1. Mae'r rhan fwyaf o gwynion gan gleifion yn erbyn osteopathiaid yn ymwneud â chyfathrebu gwael yn y bôn. Mae cyfathrebu effeithiol yn broses ddwyffordd sy'n golygu gwrando yn ogystal â siarad.</p> <p>2. Dylech sylwi'n fanwl ar arwyddion dieiriau'r cleifion; er enghraifft, pan fydd iaith corff neu dôn llais y claf yn awgrymu ei fod yn nerfus neu'n anghyfforddus.</p> <p>3. Dylech gofio'r ffaith y bydd gan rai cleifion anghenion penodol yn ymwneud â rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, diwylliant, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ffordd o fyw, oedran, statws cymdeithasol neu iaith. Dylech allu ymateb yn briodol i'r anghenion hyn.</p> <p>4. Dylech roi'ch sylw llawn i'ch cleifion, a neilltuo digon o amser i ymdrin â'u hanghenion yn llawn. Os ydych chi'n rhedeg busnes ar eich pen eich hun, byddwch angen datblygu strategaethau fel nad yw eraill yn tarfu gormod arnoch pan fo'r claf gyda chi.</p> <p>5. Mae cyfathrebu da yn hollbwysig yn enwedig pan fyddwch chi'n gorfod archwilio neu drin rhannau preifat o'r corff. Yn gyntaf, dylech sicrhau eich bod yn esbonio'r glir a gofalus wrth y claf beth rydych angen ei wneud a pham. Rhaid i'r claf ddeall beth yw natur a diben yr archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig. Mae rhannau preifat yn cynnwys cesail y forddwyd, pwbis, perinëwm, bronnau a'r anws, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn.</p> |

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|--|
| A2 (parhad) | <p>6. Os ydych chi'n bwriadu cynnal archwiliad o'r wain neu'r rectwm, dylech gynnig gwneud hyn mewn apwyntiad dilynol. Efallai na fydd rhai cleifion wedi paratoi eu hunain yn ddigonol ar gyfer gweithdrefn o'r fath, ac y byddai'n well ganddynt wneud hynny dro arall.</p> <p>Gweler hefyd: A1, A4, C5, C6, D4</p> |
| A3 Rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i gleifion mewn modd dealladwy. | <p>1. Cyn archwilio neu drin cleifion, dylech sicrhau eu bod yn deall:</p> <p>1.1. Eu hawliau fel cleifion, gan gynnwys hawl i gael rhywun arall yn bresennol a'u hawl i roi'r gorau i'r archwiliad neu'r driniaeth unrhyw bryd.</p> <p>1.2. Beth allant ei ddisgwyl yn realistig gennych fel osteopath (a pham bod eu disgwyliadau'n afrealistig o bosibl).</p> <p>2. Dylech roi gwybod i'ch claf am unrhyw risgiau bach neu fawr sy'n gysylltiedig â'r driniaeth arfaethedig. Os nad ydych chi'n cynnig unrhyw driniaeth, dylech esbonio'r risgiau o wneud dim. Dylech hefyd esbonio unrhyw ddewisiadau eraill. Dylai'r wybodaeth hon ganolbwyntio ar sefyllfa unigol y claf a'r risgiau iddo. Dylech ofalu bod y claf wedi deall y wybodaeth a gafodd gennych.</p> <p>3. Efallai y bydd diagramau, modelau ac iaith syml annhechnegol yn helpu i esbonio triniaethau a risgiau penodol.</p> <p>4. Os ydych chi'n bwriadu archwilio neu drin claf ag anawsterau cyfathrebu, dylech wneud popeth posibl i'w helpu. Er enghraifft, defnyddiwch gyfieithydd neu ddehonglydd priodol os nad yw'r claf yn gallu siarad yr un iaith â chi neu'n dibynnu ar iaith arwyddion i gyfathrebu.</p> <p>Gweler hefyd: A1, A4, C7, C8</p> |
| A4 Rhaid i chi dderbyn caniatâd dilys cyn archwilio a thrin cleifion. | <p>1. Er mwyn i'r caniatâd fod yn ddilys, rhaid iddo fod wedi'i roi:</p> <p>1.1. Yn wirfoddol.</p> <p>1.2. Gan unigolyn â'r wybodaeth briodol.</p> <p>1.3. Gyda'r gallu i gytuno i'r ymyriad dan sylw.</p> <p>2. Mae angen i'r claf ddeall natur, diben a risgiau'r archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig. Yna, rhaid i'r claf fod yn rhydd i naill ai dderbyn neu wrthod yr archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig. Efallai y bydd rhai cleifion angen amser i ystyried yr hyn a gynigiwyd gennych cyn rhoi sêl bendith iddo.</p> |

6 Safonau Ymarfer Osteopathig > CYFATHREBU A PHARTNERIAETH Â CHLEIFION

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|------------------------|--|
| A4 (parhad) | <p>3. Mae cael cydsyniad yn rhan hollbwysig o'ch ymarfer, ac yn ofyniad moesegol a chyfreithiol. Os ydych chi'n archwilio claf heb ei ganiatâd, gallech wynebu achos troseddol, sifil neu gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.</p> <p>4. Os byddwch yn cynnal archwiliad a thriniaeth ddiagnostig ar yr un pryd, efallai mai'r ffordd orau o gael cydsyniad yw trwy esbonio'ch dulliau, disgrifio'r mathau o driniaeth yr hoffech eu defnyddio a gosod terfynau y byddwch yn gweithio oddi mewn iddynt. Os yw'r claf yn rhoi caniatâd i chi ar y sail hon, gallwch wneud hynny. Os yw'r claf yn mynegi pryderon eich bod yn mynd y tu hwnt i'r cynllun triniaeth y cytunwyd arno, rhaid i chi roi'r gorau i'r driniaeth.</p> <p>5. Cyn dibynnu ar ganiatâd y claf, dylech ystyried a gafodd y wybodaeth yr oedd ei heisiau neu ei hangen, a pha mor dda mae'n deall holl fanylion a goblygiadau'r hyn a gynigir. Mae hyn yn bwysicach na sut y cafodd caniatâd ei fynegi neu ei gofnodi.</p> <p>6. Gall cleifion roi caniatâd ar lafar neu ar bapur, neu gall awgrymu caniatâd drwy gydymffurfio â'r archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig, er enghraifft, trwy baratoi ar gyfer yr asesiad neu'r gofal.</p> <p>7. Nid yw dilysrwydd y caniatâd yn dibynnu ar y dull o roi caniatâd. Gall caniatâd ysgrifenedig fod yn dystiolaeth, ond os nad yw'r elfen o wirfoddolrwydd, gwybodaeth briodol a gallu wedi'i bodloni, ni fydd llofnod ar ffurflen yn unig yn ddigon i ddilysu'r caniatâd.</p> <p>8. Mae'n hollbwysig sicrhau bod eich claf yn deall ac yn cydsynio i'r archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig o unrhyw ran breifat o'r corff, cyn gwneud hynny. Mae'r rhannau preifat yn cynnwys cesail y forddwyd, pwbis, perinëwm, bronnau a'r anws, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn. Efallai bod cleifion yn ystyried rhannau eraill o'r corff yn 'rhannau preifat' hefyd.</p> <p>9. Nid oes raid i ganiatâd dilys fod yn un ysgrifenedig bob amser. Fodd bynnag, os ydych chi'n cynnig cynnal archwiliad o'r wain neu'r rectwm, dylid cael caniatâd ysgrifenedig. Dylech ofyn i'r claf ddarparu caniatâd dilys yn ysgrifenedig, trwy lofnodi ffurflen ganiatâd. Dylech gadw'r ffurflen hon yng nghofnodion y claf. Gallech hefyd ofyn i'r claf roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer gweithdrefnau eraill hefyd.</p> <p>10. Mae'r gyfraith yn cydnabod nad yw rhai cleifion – oherwydd salwch neu allu meddyliol – yn ddigon cymwys i roi caniatâd ar gyfer archwiliad neu driniaeth. Mae hyn oherwydd nad ydynt o bosibl yn gallu amgyffred neu bwysio a mesur y wybodaeth a gwneud penderfyniad cytbwys.</p> <p>11. Os nad oes gan rywun ddigon o allu meddyliol, dylid gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i driniaeth ers lles yr unigolyn dan sylw ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth</p> |

| | |
|--|--|
| | berthnasol ar gael yn nogfen ganllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, <i>Obtaining Consent</i> . |
|--|--|

Safonau Ymarfer Osteopathig > CYFATHREBU A PHARTNERIAETH Â CHLEIFION 7

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|------------------------|--|
| A4 (parhad) | <p>12. Dylech gynnwys plant a phobl ifanc cymaint ag sy'n bosibl mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'u gofal, hyd yn oed os nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain.</p> <p>13. Cyn i chi archwilio neu drin plentyn neu berson ifanc, dylech sicrhau bod gennych ganiatâd dilys. Mae cael caniatâd ar gyfer trin plentyn neu berson ifanc yn fater cymhleth: dim ond crynodeb yw'r canllawiau isod, sy'n rhoi cyngor ar y sefyllfaoedd mwyaf cyffredin yn eich maes ymarfer. Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth berthnasol ar gael yn nogfen ganllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, <i>Obtaining Consent</i>. Noder, yn y canllawiau isod mae 'plentyn' yn cyfeirio at rywun o dan 16 oed a 'pherson ifanc' at rywun 16 neu 17 oed.</p> <p>14. Efallai bod gan blentyn y gallu i roi caniatâd, yn dibynnu ar ei aeddfedrwydd a'i allu i ddeall beth sy'n digwydd. Bydd angen i chi ddefnyddio'ch barn broffesiynol wrth asesu gallu pob claf o dan 16 oed. Argymhellwn yn gryf eich bod, lle bynnag y bo modd, yn cynnwys rhiant y plentyn wrth ofyn am ganiatâd.</p> <p>15. Os yw plentyn â digon o allu yn rhoi caniatâd i'r driniaeth, yna ni all rhiant ddiystyru'r caniatâd hwnnw.</p> <p>16. Os nad oes gan blentyn ddigon o allu i roi caniatâd, dylech ofyn am ganiatâd gan y rhieni i roi triniaeth.</p> <p>17. Gellir trin person ifanc fel oedolyn a rhagdybio ei fod yn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i ofal ei hun. Er hynny, bydd angen i chi ddefnyddio'ch barn broffesiynol i asesu a oes gan y person ifanc ddigon o aeddfedrwydd a gallu i ddeall beth mae'r driniaeth arfaethedig yn ei olygu iddo/iddi oherwydd, fel oedolion, mae'n rhaid i'r caniatâd fod yn ddilys (gweler A4, paragraff 1).</p> <p>18. Mae'r sefyllfa sy'n ymwneud â phobl ifanc heb ddigon o allu meddyliol yn amrywio ledled y DU. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gall rhieni, dan rai amgylchiadau, roi caniatâd i drin eu mab neu ferch 16 neu 17 oed heb allu. Yn yr Alban, ar y llaw arall, mae pobl ifanc heb allu meddyliol yn cael eu trin yr un fath ag oedolion heb ddigon o allu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nogfen ganllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, <i>Obtaining Consent</i>.</p> <p>19. Os yw person ifanc â digon o allu meddyliol yn rhoi caniatâd i dderbyn triniaeth, ni all rhieni ddiystyru'r caniatâd hwnnw.</p> <p>20. Os yw plentyn neu berson ifanc â'r gallu meddyliol yn gwrthod triniaeth, gellir diystyru hynny dan rhai amgylchiadau. Prin yw'r achosion o ddiystyru achos o wrthod triniaeth osteopathig, fodd bynnag. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylech gyfeirio at ddogfen ganllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, <i>Obtaining Consent</i>, a gofyn am gyngor cyfreithiol.</p> |

| | |
|--|---|
| | Gweler hefyd: A1, A2, C1, C2, <i>Obtaining Consent</i> (GOsC) |
|--|---|

8 Safonau Ymarfer Osteopathig > CYFATHREBU A PHARTNERIAETH Â CHLEIFION

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|---|
| A5 Gweithio mewn partneriaeth â chleifion i ganfod y driniaeth orau iddynt. | <p>1. Dylech annog cleifion i ofyn cwestiynau ynglŷn â'u triniaeth a chymryd rhan lawn yn eu cynllun triniaeth ac unrhyw benderfyniadau sydd angen eu gwneud.</p> <p>2. Bydd y driniaeth fwyaf effeithiol i gleifion weithiau'n cynnwys:</p> <p>2.1. Eu cyfeirio at osteopath neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.</p> <p>2.2. Rhoi cyngor ar hunanofal.</p> <p>2.3. Peidio â'u trin o gwbl.</p> <p>Gweler hefyd: A1, C1, C2, C5,D8</p> |
| A6 Helpu cleifion i ofalu amdanynt eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd eu hunain. | <p>1. Mae helpu cleifion i ofalu amdanynt eu hunain yn cynnwys:</p> <p>1.1. Eu hannog i roi gwybod i'w meddyg teulu ac ymarferwyr gofal iechyd eraill eu bod yn derbyn triniaeth osteopathig a gofyn iddynt am ganiatâd i gysylltu â'u meddyg teulu.</p> <p>1.2. Caniatáu iddynt benderfynu drostynt eu hunain am eu gofal, hyd yn oed os ydych chi'n anghytuno gyda'r penderfyniadau hynny. Er hynny, dylech esbonio eu dewisiadau gofal, a pham rydych chi o'r farn bod un dewis yn well na'r llall, os dyna'r achos.</p> <p>Gweler hefyd: A1, C1, C2, C3, C5</p> |

B Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

Yn foesegol, dylai bod gan osteopath y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol sy'n ofynnol i fod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

SAFONAU HYFEDREDD

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|--|
| <p>B1 Dylech ddeall cysyniadau ac egwyddorion osteopathig, a'u defnyddio'n feirniadol wrth ofalu am gleifion.</p> | <p>1. Dylai hyn gynnwys:</p> <p>1.1. Dealltwriaeth gynhwysfawr o egwyddorion a chysyniadau osteopathi er mwyn hysbysu a llywio penderfyniadau clinigol rhesymegol.</p> <p>1.2. Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau osteopathig i ymdrin ag iechyd, clefydau a salwch.</p> <p>1.3. Y gallu i ystyried y claf yn ei gyfanrwydd.</p> <p>1.4. Sgiliau cyffyrddol tra datblygedig.</p> <p>Gweler hefyd: B4</p> |
| <p>B2 Rhaid bod gennych sgiliau a gwybodaeth ddigonol i ategu'ch gwaith fel osteopath.</p> | <p>1. Dylai'ch gwybodaeth a'ch sgiliau fod yn seiliedig ar hyfforddiant ffurfiol, ymchwil a ffynonellau eraill fel hunanfyfrio neu adborth. Rhaid iddynt gynnwys y canlynol i fod yn ddigonol:</p> <p>1.1. Gwybodaeth ddigonol am strwythurau a swyddogaethau dynol er mwyn dehongli arwyddion clinigol o gamweithredu a datblygu strategaethau triniaeth ac adsefydlu priodol.</p> <p>1.2. Y gallu i sylwi y gall problemau fod yn celu cyflyrau sylfaenol eraill</p> <p>1.3. Gwybodaeth ddigonol am glefydau dynol i lywio barn glinigol a gweld lle gall cleifion fod angen ymchwiliad neu driniaeth ychwanegol neu amgen gan arbenigwr gofal iechyd arall.</p> <p>1.4. Gwybodaeth ddigonol am benderfynyddion iechyd seicolegol a chymdeithasol er mwyn creu'r cyd-destun i'ch penderfyniadau clinigol a'ch dull o reoli'r claf.</p> <p>1.5. Dealltwriaeth ddigonol o egwyddorion biomecaneg i ddefnyddio technegau osteopathig yn ddiogel ac yn effeithiol.</p> <p>1.6. Sgiliau cyffyrddol tra datblygedig.</p> <p>1.7. Gwybodaeth ddigonol o nodweddion cyffyrddol meinweoedd a systemau amrywiol y corff sy'n gweithio'n normal ac abnormal i allu dehongli casgliadau archwiliadau cyffyrddol.</p> <p>1.8. Y gallu i bennu newidiadau yn symudiadau'r meinweoedd a chymalau trwy'r defnydd priodol o arsylwi, cyffwrdd a gwerthuso symudiadau.</p> <p>1.9. Sgiliau meddwl a datrys problemau er mwyn hysbysu a llywio'r broses o ddehongli data clinigol a data arall, a chyfiawnhau rhesymau a phenderfyniadau clinigol.</p> <p>1.10. Y gallu i amddiffyn eich hun yn gorfforol ac yn</p> |

| | |
|--|---|
| | seicolegol wrth ymwneud â chleifion, i gynnal eich iechyd eich hun. |
|--|---|

10 Safonau Ymarfer Osteopathig > GWYBODAETH, SGILIAU A PHERFFORMIAD

SAFONAU HYFEDREDD

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--------------------|---|
| B2 (parhad) | <p>1.11. Y gallu i arfarnu ymarfer osteopathi yn feirniadol, er enghraifft drwy:</p> <p>1.11.1. Hunanfyfrio.</p> <p>1.11.2. Adborth gan gleifion.</p> <p>1.11.3. Adborth gan gydweithwyr.</p> <p>1.11.4. Dadansoddiad o achosion neu archwiliad clinigol.</p> <p>Gweler hefyd: B4, C1, C2</p> |

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|--|
| B3 Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich hyfforddiant a'ch cymhwysedd. | <p>1. Dylech ddefnyddio'ch barn broffesiynol i asesu a yw'r hyfforddiant, y sgiliau a'r cymhwysedd gennych i drin claf.</p> <p>2. Os na, dylech ystyried:</p> <p>2.1. Gofyn am gyngor neu gymorth o ffynhonnell briodol i'ch helpu i ofalu am y claf.</p> <p>2.2. Gweithio gydag osteopathiaid a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i sicrhau'r gofal mwyaf priodol i'ch claf.</p> <p>2.3. Cyfeirio'ch claf at osteopath neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol arall sy'n ddigon cymwys yn eich barn chi.</p> <p>3. Gallech hefyd ehangu'ch hyfforddiant a'ch cymhwysedd, fel yr amlinellir yn safon B4 neu drwy waith ymchwil.</p> <p>4. Mae angen hefyd i chi ddeall a gweithio o fewn eich cymhwysedd ym meysydd addysg ac ymchwil.</p> <p>Gweler hefyd: D1, D8, D9, D10</p> |
| B4 Sicrhau bod gennych y wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol diweddaraf. | <p>1. Dylech sicrhau bod gennych y wybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol diweddaraf trwy:</p> <p>1.1. Ymrwymo i, ac ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD).</p> <p>1.2. Monitro ansawdd y gofal osteopathig rydych chi'n ei ddarparu a gweithredu ar y canlyniadau. Gallech sicrhau hyn trwy:</p> <p>1.2.1. Hunanfyfrio.</p> <p>1.2.2. Adborth gan gleifion.</p> <p>1.2.3. Adborth gan gydweithwyr.</p> <p>1.2.4. Dadansoddiad o achosion neu archwiliad clinigol.</p> <p>1.2.5. Sicrhau eich bod yn cael y cyngor diweddaraf am ofal iechyd osteopathig a chynnwys hyn yn eich</p> |

ymarfer clinigol.

Safonau Ymarfer Osteopathig > GWYBODAETH, SGILIAU A PHERFFORMIAD

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|------------------------|--|
| B4 (parhad) | <p>2. Os ydych chi'n gweithio fel ymarferydd unigol neu'n rhan o bractis bach, gall cysylltu ag osteopathiaid eraill fod yn ddefnyddiol (er enghraifft, trwy grwpiau rhanbarthol) i rannu arferion da.</p> <p>3. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i ymarferwyr unigol drafod digwyddiadau argyfyngus a chwynion gyda chydweithwyr eraill neu trwy sefydliad proffesiynol, er mwyn helpu i ddysgu.</p> <p>Gweler hefyd: A1, B1, B2, B3, C1, C2, D1, D2, D3</p> |

C Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer

Rhaid i osteopathiaid ddarparu gofal iechyd o'r radd flaenaf sy'n ddiogel, moesegol ac effeithiol, trwy werthuso a dulliau triniaeth gofalus, sydd wedi'u hesbonio'n glir i'r claf ac sy'n parchu urddas y claf. Mae osteopathiaid yn ymrwymo i gynnal a gwella eu hymarfer a darparu gofal o safon i gleifion yn barhaus.

SAFONAU HYFEDREDD

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|---|
| C1 Rhaid i chi allu cynnal gwerthusiad osteopathig o glaf yn ddigonol i wneud diagnosis ymarferol a llunio cynllun triniaeth. | <p>1. Dylai hyn gynnwys y gallu i wneud y canlynol:</p> <p>1.1. Cofnodi hanes manwl y claf a dadansoddi ei gŵyn/gwynion</p> <p>1.2. Addasu hanes eich achos er mwyn ystyried y gŵyn/cwynion cyfredol, unrhyw sensitifrwydd ar ran y claf neu ddull cyfathrebu'r claf.</p> <p>1.3. Cydnabod pwysigrwydd perthynol y ffactorau corfforol, seicolegol a chymdeithasol yng nghwyn/cwynion cyfredol y claf.</p> <p>1.4. Dewis a chynnal ymchwiliadau clinigol priodol ar gyfer eich claf, gan ystyried natur ei gŵyn/gwynion a hanes ei achos.</p> <p>1.5. Creu rhagdybiaethau diagnostig priodol i esbonio cwyn/cwynion y claf a defnyddio'ch sgiliau osteopathig i ddatblygu diagnosis ymarferol.</p> <p>Gweler hefyd: A4, C7, C8</p> |
| C2 Rhaid i chi allu llunio a darparu cynllun triniaeth osteopathig y gellir ei gyfiawnhau neu gamau gweithredu amgen. | <p>1. Dylai gynnwys y gallu i wneud y canlynol:</p> <p>1.1. Detholiad priodol o dechnegau osteopathig a dulliau i reoli'r claf i sicrhau gofal eich claf unigol.</p> <p>1.2. Dewis, cyfiawnhau a chymryd camau gweithredu priodol sy'n seiliedig ar:</p> <p>1.2.1. Y diagnosis.</p> <p>1.2.2. Y claf.</p> <p>1.2.3. Terfynau'ch cymhwysedd personol.</p> <p>1.2.4. Effeithiau tebygol y driniaeth osteopathig (ar sail ymchwil gyfredol, lle bo modd).</p> <p>1.3. Creu cynllun triniaeth, gan ystyried dymuniadau'r claf.</p> <p>1.4. Nodi'r arwyddion a'r gwrtharwyddion o ddefnyddio technegau osteopathig penodol neu ffurfiau addasiedig o'r technegau hyn.</p> <p>1.5. Monitro effeithiau'r driniaeth yn ystod ac ar</p> |

| | |
|--|--|
| | <p>ôl ei chyflwyno.</p> <p>1.6. Addasu techneg neu driniaeth osteopathig mewn ymateb i gasgliadau'r archwiliad cyffyrddol.</p> <p>1.7. Gwerthuso ymateb ôl-driniaeth a chyfiawnhau'r penderfyniad i barhau, addasu neu derfynu triniaeth osteopathig fel sy'n briodol.</p> |
|--|--|

SAFONAU HYFEDREDD

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--------------------|---|
| C2 (parhad) | <p>1.8. Adnabod adwaith anffafriol i driniaeth i driniaeth osteopathig a chymryd camau priodol, gan gynnwys atgyfeirio at osteopath arall neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall lle bo'n briodol.</p> <p>1.9. Cydnabod unrhyw gamgymeriadau a chymryd camau priodol i'w hunioni, gan ystyried yr hyn sydd orau i'r claf.</p> <p>Gweler hefyd: A4, C7</p> |

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|---|--|
| C3 Gofalu am eich cleifion a gwneud eich gorau i ddeall eu cyflwr a gwella eu hiechyd. | <p>1. Mae'r egwyddor gyffredinol hon o arfer da wrth wraidd y berthynas rhwng osteopathiaid a'u cleifion. Bydd bodloni'r safonau sydd yn y ddogfen hon yn eich helpu i gyflawni hyn.</p> <p>2. Mae ymddiriedaeth yn rhan hanfodol o'r berthynas rhwng osteopath a'i glaf. Bydd eich proffesiynoldeb a'ch cydymffurfiaeth â'r safonau moesegol a nodir yn y ddogfen hon, yn ategu'r ymddiriedaeth hon.</p> <p>Gweler hefyd: A2–A6</p> |
| C4 Bod yn gwrtais ac ystyriol o'ch cleifion. | <p>1. Cofiwch y gall y rhai sydd angen eich cymorth fod yn nerfus a bregus, ac y byddant yn gwerthfawrogi'ch gofal a'ch ystyriaeth chi ohonynt hyd yn oed os ydynt yn ymddangos yn hyderus a phendant.</p> |
| C5 Cydnabod eich cleifion fel unigolion yn y ffordd yr ydych yn eu trin. | <p>1. Bydd cleifion yn dod atoch chi gyda phrofiadau a disgwyliadau gwahanol. Dylech geisio bodloni eu dymuniadau cystal ag y gallwch heb gyfaddawdu ar y gofal rydych chi'n ei ddarparu. Os na allwch chi ateb eu dymuniadau, dylech geisio esbonio pam wrth y claf.</p> <p>Gweler hefyd: A2, A6</p> |
| C6 Parchu urddas a swildod eich cleifion. | <p>1. Bydd gan gleifion syniadau gwahanol ynglŷn â beth maent ei angen i gadw'u hurddas a gwyleidd-dra yn ystod sesiwn ymgynghori, a dylech barchu ac ystyried y syniadau hyn.</p> <p>2. Efallai bod rhai o'r syniadau hyn wedi'u llywio gan gefndir diwylliannol neu grefyddol y claf, ond mae'n annoeth rhagdybio unrhyw beth ynghylch syniadau'r claf. Dylech barchu urddas a swildod y claf drwy:</p> <p>2.1. Dweud wrth y claf cyn yr apwyntiad cyntaf, y gallech ofyn iddo ddadwisgo ar gyfer archwiliad a thriniaeth.</p> |

14 Safonau Ymarfer Osteopathig > DIOGELWCH AC ANSAWDD WRTH YMARFER

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|------------------------|--|
| C6 (parhad) | <p>2.2. Caniatáu i'r claf ddadwisgo, a gwisgo eto, heb neb yn ei wyllo.</p> <p>2.3. Esbonio pam (os ydych chi'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu o gymorth at ddibenion gwneud diagnosis neu driniaeth) eich bod yn dymuno ei weld yn dadwisgo. Os yw'r claf yn anhapus ynghylch hyn, dylech barchu ei ddymuniad a meddwl am ffordd arall o gael y wybodaeth glinigol angenrheidiol.</p> <p>2.4. Gorchuddio rhannau eraill o'r corff nad sydd angen eu gweld fel rhan o'r archwiliad neu'r driniaeth. Gellir gwneud hyn trwy roi gorchudd priodol i'r claf neu adael iddo barhau i wisgo rhai o'i ddillad. Os ydych angen gweld y claf yn ei ddillad isaf, yna dylech esbonio hyn i'r claf a gofyn a yw'n ddigon cyfforddus i wneud hynny.</p> <p>3. Os ydych angen i'ch claf dynnu'i ddillad isaf fel rhan o'r archwiliad neu'r driniaeth, dylech ei annog i wisgo amdano ar ddiwedd yr archwiliad neu'r driniaeth arbennig honno, cyn parhau ag unrhyw weithdrefn arall.</p> <p>4. Lle bo'n bosibl, dylech adael i'r claf dynnu ei ddillad isaf ei hun. Os oes gwir angen i chi ei helpu, dylech gael caniatâd yn gyntaf cyn gwneud hynny.</p> <p>5. Dylech ofyn i'r claf a fyddai'n hoff cael cwmni yn yr ystafell:</p> <p>5.1. Os ydych chi'n archwilio neu'n trin rhan breifat o'r corff.</p> <p>5.2. Os ydych chi'n trin claf o dan 16 oed.</p> <p>5.3. Os ydych chi'n oedolyn heb allu meddyliol.</p> <p>5.4. Os ydych chi'n trin claf yn ei gartref ei hun.</p> <p>6. Gall 'cwmni' olygu:</p> <p>6.1. Perthynas neu ffrind y claf.</p> <p>6.2. Rhywun addas o'ch practis chi, ar wahân i'ch gŵr/gwraig neu gymar personol.</p> <p>7. Os yw'r claf yn dymuno cael cwmni, ond nad ydych chi na'r claf yn gallu darparu cwmni, dylech gynnig aildrefnu'r apwyntiad.</p> <p>8. Os yw'r cwmni yn bresennol, dylech gofnodi hyn yng nghofnodion y claf. Os yw'r claf sy'n perthyn i unrhyw un o'r categorïau ym mharagraff 5 yn gwrthod eich cynnig i gael cwmni, dylech gofnodi hynny hefyd.</p> <p>Gweler hefyd: A2, C5, D4,D5</p> |

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|---|
| <p>C7 Darparu gofal a thriniaeth briodol.</p> | <p>1. Mae darparu gofal a thriniaeth briodol yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1.1. Cael hanes llawn yr achos. 1.2. Cynnal ymchwiliadau clinigol priodol. 1.3. Llunio diagnosis ymarferol a chynllun triniaeth. 1.4. Darparu triniaethau o'r radd flaenaf (rhaid iddynt fod o fewn eich lefel o gymhwysedd). 1.5. Atgyfeirio eich cleifion at bobl eraill os ydynt angen triniaeth na allwch chi ei darparu. <p>2. Mae hawl gan gleifion i ddisgwyl gofal a thriniaeth broffesiynol, lle bynnag rydych chi'n eu trin. Pan fyddwch chi'n trin rhywun y tu allan i'ch ystafelloedd ymgynghori arferol, dylech:</p> <ol style="list-style-type: none"> 2.1. Ysgrifennu nodyn yn eich cofnodion i ddweud ble y cynhaliwyd yr ymgynghoriad. 2.2. Lle bo'n bosibl, defnyddio'r un safonau â rhai'ch amgylchedd ymarfer arferol. <p>Gweler hefyd: B4, C1, C2</p> |
| <p>C8 Sicrhau bod eich cofnodion cleifion yn llawn, yn gywir ac wedi'u cwblhau'n brydlon.</p> | <p>1. Bydd cofnodion cywir, cynhwysfawr, sy'n hawdd eu deall yn eich helpu i ddarparu gofal da i'ch cleifion. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1.1. Dyddiad yr ymgynghoriad. 1.2. Manylion personol eich claf. 1.3. Unrhyw broblemau a symptomau a nodwyd gan eich claf. 1.4. Hanes meddygol, teuluol a chymdeithasol perthnasol. 1.5. Eich casgliadau clinigol, gan gynnwys rhai negyddol. 1.6. Y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gennych chi, boed yn bersonol neu dros y ffôn. 1.7. Diagnosis ymarferol a chynllun gofal. 1.8. Cofnodion caniatâd, gan gynnwys ffurflenni caniatâd. 1.9. Eich ymchwiliad neu'ch triniaeth chi, a'r canlyniadau 1.10. Unrhyw gyfathrebu gyda'ch claf, ynglŷn â'ch claf neu gan eich claf. 1.11. Copïau o unrhyw ohebiaeth, adroddiadau, canlyniadau profion ac ati sy'n ymwneud â'ch claf. 1.12. Ymateb clinigol i'r driniaeth a chanlyniadau hynny. 1.13. Lleoliad eich ymweliad os yw y tu allan i'ch ystafelloedd ymgynghori arferol. 1.14. A oedd cwmni yn bresennol, neu nad oedd yn gofyn am hynny. 1.15. A oedd myfyriwr neu arsylwr yn bresennol. <p>2. Dylai'ch nodiadau gael eu cwblhau ar y pryd neu dylech eu cwblhau'n brydlon ar ôl ymgynghoriad (ar yr un diwrnod fel arfer).</p> |

16 Safonau Ymarfer Osteopathig > DIOGELWCH AC ANSAWDD WRTH YMARFER

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|--|
| C8 (parhad) | <p>3. Dylai'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu mewn adroddiadau a ffurflenni neu at unrhyw ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â'ch ymarfer fod yn onest, yn gywir a chyflawn.</p> <p>Gweler hefyd: A4, A6, D2, D3, D6</p> |
| C9 Gweithredu'n gyflym i helpu cleifion a'u diogelu rhag niwed. | <p>1. Dylech gymryd camau i ddiogelu neu amddiffyn eich cleifion os ydych chi'n credu bod iechyd, ymddygiad neu berfformiad proffesiynol cydweithiwr neu ymarferydd yn peri risg iddynt. Dylech ystyried cymryd un o'r camau canlynol, gan gofio mai'ch prif nod yw diogelu'r claf:</p> <p>1.1. Trafod eich pryderon gyda'ch cydweithiwr neu ymarferydd.</p> <p>1.2. Rhannu'ch pryderon â chydweithwyr eraill neu bennaeth y practis, os oes un, neu â chyflogwr.</p> <p>1.3. Os yw'r ymarferydd yn perthyn i broffesiwn rheoledig, rhannu'ch pryderon â'r corff rheoleiddio perthnasol (gan gynnwys y Cyngor Osteopathig Cyffredinol os yw'r ymarferydd yn osteopath).</p> <p>1.4. Os yw'r ymarferydd yn perthyn i gorff gwirfoddol, mynegi eich pryderon wrtho.</p> <p>1.5. Os oes gennych bryderon uniongyrchol a difrifol am glaf, hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am eich cydweithiwr.</p> <p>2. Os mai chi yw pennaeth y practis, dylech sicrhau bod systemau ar waith fel bod staff yn gallu codi pryderon am risgiau i gleifion.</p> <p>3. Rhaid i chi gydymffurfio â'r ddeddf sy'n amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.</p> |

D Proffesiynoldeb

Rhaid i osteopathiaid ddarparu gofal iechyd diogel a moesegol trwy ymdrin â chydweithwyr proffesiynol a chleifion gyda pharch ac yn amserol.

SAFONAU HYFEDREDD

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|--|
| <p>D1 Rhaid i chi ystyried cyfraniadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i sicrhau'r gofal gorau i gleifion.</p> | <p>1. I gyflawni hyn, dylech wneud y canlynol:</p> <p>1.1. Cydnabod cyfraniadau posibl gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill at les y claf.</p> <p>1.2. Deall cyfraniad osteopathi i ofal iechyd yn gyffredinol, gyda chyfeiriad penodol at ofal iechyd sylfaenol.</p> <p>1.3. Gwerthuso'n feirniadol farn broffesiynol proffesiynau gofal iechyd eraill (confensiynol ac anghonfensiynol) ac ystyried sut maen nhw'n berthnasol i'ch ymarfer chi ym maes osteopathi, lle bo hynny'n berthnasol i ofal eich cleifion.</p> <p>1.4. Deall beth yw'r posibiladau a'r cyfyngiadau o weithio gydag arbenigwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a gwybodaeth am weithdrefnau atgyfeirio.</p> <p>1.5. Cymryd rhan effeithiol yn y broses o gynllunio, gweithredu a gwerthuso dulliau rhyngbroffesiynol o ymdrin â gofal iechyd, lle bo dulliau o'r fath yn briodol ac ar gael.</p> <p>Gweler hefyd: B3, D8, D9</p> |
| <p>D2 Rhaid i chi ymateb yn effeithiol i'r gofynion o ran cynhyrchu data a deunyddiau ysgrifenedig o'r radd flaenaf.</p> <p>D3 Rhaid eich bod yn gallu casglu, prosesu a dadansoddi gwybodaeth fel bo'r angen.</p> | <p>1. I gyflawni hyn, bydd angen:</p> <p>1.1. Digon o gymhwysedd mewn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn rheoli ymarfer osteopathig yn effeithiol ac effeithlon.</p> <p>1.2. Datblygu dulliau o gadw ac adalw data ariannol a data arall er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol o ran cyfrinachedd, cadw data a cheisiadau am wybodaeth gan gleifion neu bartïon awdurdodedig eraill.</p> <p>1.3. Paratoi adroddiadau ysgrifenedig a chyflwyniadau sy'n addas ar gyfer atgyfeirio a dibenion cysylltiedig.</p> <p>1.4. Casglu a dadansoddi data meintiol ac ansoddol am ymarfer proffesiynol.</p> |

**18 Safonau Ymarfer Osteopathig > PROFFESIYNOLDEB
COD YMARFER**

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|---|
| <p>D4 Gofalu nad yw'ch credoau a'ch gwerthoedd yn effeithio'n negyddol ar ofal eich cleifion.</p> | <p>1. Dylech ddarparu gwasanaeth o'r un safon i bob claf. Mae'n anghyfreithlon gwrthod cynnig gwasanaeth i rywun ar sail eu rhyw, ethnigrwydd, anabledd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, statws trawsryweddol, oed neu statws priodasol.</p> <p>2. Os yw gwneud rhywbeth penodol neu roi cyngor ar y mater dan sylw yn mynd yn groes i'ch credoau personol, crefyddol neu foesol, ac y gallai hyn effeithio ar y driniaeth neu'r cyngor a ddarperir gennych, rhaid i chi esbonio hyn i'r claf a dweud bod ganddo'r hawl i weld neu gael ei gyfeirio at osteopath arall.</p> <p>3. Dylech fod yn broffesiynol bob amser, hyd yn oed pan fo anghytundeb personol rhyngoch chi a'r claf.</p> <p>4. Does dim gorfodaeth arnoch i dderbyn unrhyw unigolyn fel claf, ond os ydych chi'n derbyn rhywun ac yn teimlo na allwch chi barhau i roi gofal o safon y mae ganddo hawl iddo, gallech wrthod parhau i'w drin. Dylech felly geisio ei gyfeirio at osteopath arall. Mae rhesymau da dros wrthod derbyn claf neu beidio â pharhau â'r gofal yn cynnwys:</p> <p>4.1. Maent yn ymddwyn yn ymosodol neu'n troi felly.</p> <p>4.2. Mae'n ymddangos bod y claf wedi colli pob hyder yn eich gofal.</p> <p>4.3. Mae'n ymddangos fel pe bai'n dibynnu arnoch mewn modd amhriodol.</p> <p><i>Gweler hefyd: A2, C5, C6,D5</i></p> |
| <p>D5 Rhaid i chi gydymffurfio â deddfau cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethol</p> | <p>1. Dylech fod yn gyfarwydd â'ch gofynion dan ddeddfwriaethau cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu, fel Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p><i>Gweler hefyd: A2, C5, C6,D4</i></p> |
| <p>D6 Parchu hawl eich cleifion i breifatrwydd a chyfrinachedd.</p> | <p>1. Yn ystod eich gwaith, byddwch yn derbyn gwybodaeth bersonol a sensitif ynglŷn â'ch cleifion. Mae gan gleifion yr hawl i ddisgwyl i chi gadw hyn yn gyfrinachol. Os na allant ymddiried yn och chi i wneud hyn, yna efallai y byddant yn amharod i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddarparu gofal o safon. Mae cadw cyfrinachedd cleifion yn cynnwys:</p> <p>1.1. Cadw hunaniaeth a gwybodaeth bersonol arall am gleifion yn gyfrinachol, yn ogystal ag unrhyw farn sydd gennych amdanynt yn sgil eich gwaith.</p> <p>1.2. Sicrhau bod eich staff yn cadw gwybodaeth o'r fath yn gyfrinachol.</p> <p>1.3. Sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol hyd yn oed ar ôl i'r claf farw.</p> <p>1.4. Peidio â rhyddhau na thrafod manylion meddygol neu wybodaeth am ofal claf gyda neb arall, gan gynnwys eu</p> |

gŵr/gwraig, cymar neu aelodau eraill o'r teulu, oni bai bod gennych ganiatâd dilys gan y claf i wneud hynny.

Safonau Ymarfer Osteopathig > PROFFESIYNOLDEB 19

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|------------------------|--|
| D6 (parhad) | <p>1.5. Sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei hamddiffyn yn ddiogel, rhag mynd ar goll, cael ei dwyn na'i datgelu'n amhriodol.</p> <p>2. Mae gan gleifion hawl i weld eu nodiadau a dylech eu cynorthwyo gyda hyn os cewch gais o'r fath.</p> <p>3. Dylai bod gennych ddulliau digonol a diogel o gadw gwybodaeth a chofnodion cleifion. Dylech gadw cofnodion cleifion:</p> <p>3.1. Am o leiaf wyth mlynedd ar ôl eu hymgyngoriad diwethaf.</p> <p>3.2. Yn achos plentyn, tan ei ben-blwydd yn 25 oed.</p> <p>4. Dylech drefnu bod cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ar ôl i chi roi'r gorau i ymarfer, neu ar ôl i chi farw. Dylai cleifion wybod sut i gael gafael ar eu cofnodion dan amgylchiadau o'r fath.</p> <p>5. Rhaid i chi gydymffurfio â'r gyfraith sy'n ymwneud â diogelu data. Am ragor o wybodaeth am ddiogelu data, ewch i wefan Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU.</p> <p>6. Efallai y byddwch angen gofyn i'ch claf (neu rywun arall ar ei ran) am ganiatâd i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol amdano; er enghraifft, os ydych chi angen rhannu gwybodaeth â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall. Mewn achos o'r fath, dylech:</p> <p>6.1. Esbonio i'r claf pam eich bod eisiau datgelu'r wybodaeth a gofalu ei fod yn deall beth fyddwch chi'n ei ddatgelu, pam ac i bwy, a'r goblygiadau tebygol.</p> <p>6.2. Gadael iddo wrthod rhoi caniatâd os yw'n dymuno.</p> <p>6.3. Os yw'n cytuno, gofyn iddo ddarparu caniatâd ysgrifenedig neu lofnodi ffurflen gydsynio.</p> <p>6.4. Cyngori pwy bynnag rydych chi'n datgelu'r wybodaeth iddo, ei fod yn gorfod parchu cyfrinachedd y claf.</p> <p>6.5. Ystyried a yw'n angenrheidiol datgelu'r holl wybodaeth sydd gennych am y claf; er enghraifft, oes angen i'r derbynnydd weld holl hanes meddygol y claf, neu ei gyfeiriad, neu unrhyw wybodaeth arall sy'n datgelu pwy ydyw?</p> <p>7. Yn gyffredinol, ni ddylech ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am eich claf heb ei ganiatâd yntau, ond gallech orfod gwneud hyn dan rhai amgylchiadau; er enghraifft:</p> <p>7.1. Os oes gorfodaeth arnoch trwy orchymyn llys, neu awdurdod cyfreithiol arall. Dim ond gwybodaeth sy'n ofynnol dan y gorchymyn hwnnw y dylech ei datgelu.</p> <p>7.2. Os yw hynny'n angenrheidiol er lles y cyhoedd. Yn yr achos hwn, mae'ch dyletswydd chi i'r gymdeithas yn bwysicach na'ch dyletswydd i'ch claf. Bydd hyn yn digwydd fel arfer os yw'r claf yn rhoi ei hun neu eraill mewn perygl difrifol; er enghraifft, trwy'r posibilrwydd o heintio, ymddwyn yn dreisgar neu ymddygiad troseddol difrifol.</p> |

20 Safonau Ymarfer Osteopathig > PROFFESIYNOLDEB

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|---|---|
| D6 (parhad) | <p>7.3. Os yw'n angenrheidiol, er lles iechyd y claf, i rannu gwybodaeth gyda'i gynghorydd meddygol, gwarcheidwad cyfreithiol neu berthnasau agos, ac nad yw'r claf yn gallu rhoi caniatâd.</p> <p>8. Os ydych angen datgelu gwybodaeth heb ganiatâd eich claf, dylech roi gwybod iddo, oni bai eich bod wedi'ch gwahardd yn benodol rhag gwneud hynny (er enghraifft, mewn ymchwiliad troseddol) neu bod rheswm da arall dros beidio â gwneud hynny (er enghraifft pe gallai'r claf ymddwyn yn dreisgar).</p> <p>9. Dylai unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth fod yn gymesur ac wedi'i gyfyngu i'r manylion perthnasol.</p> <p>Gweler hefyd: C8</p> |
| D7 Bod yn onest ac yn agored wrth ymdrin â chleifion a chydweithwyr ac ymateb yn gyflym i gwynion. | <p>1. Os ydych yn bodloni safonau'r ddogfen hon, dylech allu ymarfer osteopathi yn ddiogel, yn gymwys ac yn foeseogol. Er hynny, efallai bod cleifion yn anfodlon gyda'u gofal o bryd i'w gilydd.</p> <p>2. Efallai yr hoffech roi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i gyflwyno sylwadau am y gwasanaeth a gawsant, gan gynnwys rhai canmoliaethus.</p> <p>3. Dylai bod gennych broses ar gyfer ystyried cwynion ynglŷn â'ch ymarfer, ac ymateb iddynt. Dylech sicrhau bod staff yn gyfarwydd â hyn ac yn gwybod at bwy i anfon cwynion gan gleifion.</p> <p>4. Os ydych chi'n gweithredu'n adeiladol, yn rhoi cyfle i gleifion fynegi eu hanfodlonrwydd ac yn darparu esboniadau sensitif o'r hyn ddigwyddodd a pham gallech rwystro'r gŵyn rhag mynd o ddrwg i waeth.</p> <p>5. Mae cwyn yn gyfle i gnoi cil ar y cyfathrebu a safon y gofal a ddarparwyd, a gall amlygu'ch meysydd ymarfer y gellid eu gwella. Trwy ymdrin â chwyn yn dda, gall hynny gryfhau'r ymdeimlad o ymddiriedaeth rhyngoch chi a'ch claf, ac arwain at ofal gwell i gleifion.</p> <p>6. Dylech roi gwybod i'ch cymdeithas broffesiynol ac yswirwyr indemniad proffesiynol os ydych chi'n derbyn cwyn.</p> <p>7. Dylech sicrhau bod unrhyw un sy'n cwyno yn gallu cyfeirio'r mater i'r Gymdeithas Osteopathig Cyffredin, a dylech gydweithredu'n llawn ag unrhyw ymchwiliad allanol.</p> |

| | |
|--|---|
| | |
| D8 Cefnogi'ch cydweithwyr a chydweithio â nhw i wella gofal cleifion. | 1. Lle'r ydych yn rhannu gofal gyda gweithwyr proffesiynol eraill, dylech ystyried pa mor effeithiol yw'ch trefniadau trosglwyddo. Gellir trosglwyddo'n effeithiol ar lafar, ond mae gwneud nodyn o hynny yng nghofnodion osteopathig y claf yn arfer da. |

Safonau Ymarfer Osteopathig > PROFFESIYNOLDEB 21

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--------------------|---|
| D8 (parhad) | <p>2. Chi sy'n gyfrifol am yr holl staff a gyflogir yn eich clinig (gan gynnwys staff gweinyddol) a'u hymddygiad, ac unrhyw ganllawiau neu gyngor maen nhw'n ei roi i gleifion. Dylech sicrhau bod staff yn deall pwysigrwydd:</p> <p>2.1. Cyfrinachedd cleifion. 2.2. Cadw cofnodion meddygol. 2.3. Cysylltiadau â chleifion, cydweithwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. 2.4. Cwynion. 2.5. Yr amgylchedd gwaith. 2.6. Iechyd a diogelwch. 2.7. Dyletswyddau cydraddoldeb.</p> <p>3. Os ydych chi'n gyfrifol am weithiwr cyswllt neu gynorthwydd, dylech ddarparu cymorth proffesiynol ac adnoddau digonol iddynt allu cynnig gofal priodol i'w cleifion. Ni ddylech eu rhoi nhw dan ormod o bwysau, neu ddisgwyl iddynt weithio oriau rhy hir. Ni ddylech ddisgwyl iddynt ddarparu unrhyw driniaeth y tu hwnt i'w cymhwysedd.</p> <p>4. Os yw'ch practis yn cyflogi staff cymorth, dylech sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau cyfreithiol sy'n angenrheidiol i gyflawni'u swydd.</p> <p>5. Os ydych chi'n hyfforddi cydweithwyr iau, dylech sicrhau bod eu dulliau o ofalu am gleifion yn cael eu goruchwylio'n gywir a bod yswiriant indemniad proffesiynol digonol ar waith.</p> <p>6. Os oes gennych chi gyfrifoldebau arbennig am addysgu, dylech sicrhau eich bod yn datblygu sgiliau addysgu effeithiol.</p> <p>7. Os oes gennych chi fyfyrwr osteopathig – rhywun sy'n dilyn cwrs cyn-gofrestru a gydnabyddir gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol – yn eich clinig, dylech gofio'r canlynol:</p> <p>7.1. Efallai y bydd myfyrwr yn gofyn am ganiatâd i arsylwi arnoch wrth eich gwaith yn eich clinig – ond dylech gytuno ymlaen llaw gyda sefydliad addysg osteopathig a gydnabyddir gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, i ganiatáu i'w fyfyrwr archwilio, trin neu gynghori'ch cleifion fel rhan o leoliad clinigol. 7.2. Dylech oruchwylio unrhyw fyfyrwr sy'n cynnal unrhyw archwiliad, triniaeth neu gyngor osteopathig yn llawn. 7.3. Chi sy'n gyfrifol am ymddygiad y myfyrwr a sicrhau bod yswiriant indemniad proffesiynol digonol ar waith i yswirio gweithgareddau'r myfyrwr.</p> |

| | |
|--|--|
| | 7.4. Rhaid sicrhau bod y claf yn ymwybodol o statws y myfyriwr, a'i fod yn cydsynio iddo fod yn bresennol cyn dechrau unrhyw ymgynghoriad neu driniaeth. |
|--|--|

22 Safonau Ymarfer Osteopathig > PROFFESIYNOLDEB 21

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|---|--|
| D8 (parhad) | <p>8. Gallwch hefyd roi caniatâd i ddarpar fyfyrwr osteopathi arsylwi ar ymgynghoriad neu driniaeth os yw'r claf yn cytuno i hynny ac yn gwbl ymwybodol o'r ffaith nad yw'n osteopath nac yn fyfyrwr osteopathi. Dylech fod yn argyhoeddedig bod yr arsylwr yn addas i fynychu'r ymgynghoriad neu driniaeth, ac ni ddylech adael iddo archwilio neu drin y claf ei hun.</p> <p>9. Os oes myfyriwr osteopathi neu arsylwr yn bresennol, dylech gofnodi'r canlynol yng nghofnodion y claf:</p> <p>9.1. Bod yr arsylwr neu'r myfyriwr yn bresennol, a nodi'i statws a'i enw.</p> <p>9.2. Bod y claf wedi caniatáu i'r arsylwr neu'r myfyriwr fod yno.</p> <p>9.3. Manylion unrhyw archwiliad a gynhaliodd y myfyriwr.</p> <p>9.4. Manylion unrhyw driniaeth a roddodd y myfyriwr.</p> <p>9.5. Cydsyniad y claf i'r archwiliad neu'r driniaeth.</p> <p>Gweler hefyd: B3, C8, D9, D1</p> |
| D9 Cadw sylwadau am gydweithwyr neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn onest, cywir a dilys. | <p>1. Rhaid i unrhyw sylwadau am gydweithwyr neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fod yn briodol a haeddiannol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan gleifion hyder yn eu tîm gofal iechyd.</p> <p>Gweler hefyd: D1, D8</p> |
| D10 Sicrhau nad yw'ch problemau iechyd chi'n effeithio ar eich cleifion. | <p>1. Os ydych chi'n gwybod neu'n amau bod eich iechyd corfforol neu feddyliol yn ddiffygiol nes ei fod yn effeithio ar y gofal a roddwch i'ch cleifion, dylech ystyried y canlynol:</p> <p>1.1. Cael cyngor meddygol priodol ar addasu eich ymarfer os oes angen, a sut i wneud hynny.</p> <p>1.2. Rhoi'r gorau i ymarfer yn llwyr, os oes angen, nes bod eich cynghorydd meddygol yn credu eich bod yn ddigon iach i weithio eto.</p> <p>1.3. Rhoi gwybod i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol er mwyn iddo newid eich manylion cofrestru.</p> <p>1.4. Os ydych wedi dod i gysylltiad â chlefyd trosglwyddadwy difrifol a bod gennych achos i amau eich bod yn cario'r clefyd, dylech roi'r gorau i ymarfer ar unwaith hyd nes y cewch chi gyngor gan gynghorydd meddygol priodol. Dylech ddilyn unrhyw gyngor a gewch ynglŷn ag atal neu addasu eich ymarfer. Dylech wneud popeth posibl i ofalu nad ydych chi'n trosglwyddo'r clefyd i'ch cleifion.</p> <p>Gweler hefyd: B3, D10</p> |

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|---|---|
| <p>D11 Bod yn ymwybodol o'ch rôl fel darparwr gofal iechyd i hyrwyddo iechyd y cyhoedd.</p> <p>D12 Gwneud popeth posibl i atal clefydau trosglwyddadwy rhag lledaenu.</p> <p>D13 Cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.</p> | <p>1. Mae hyrwyddo iechyd y cyhoedd yn cynnwys bod yn ymwybodol o'r canlynol:</p> <p>1.1. Dylai'ch lleoliad gwaith fod yn lân, yn ddiogel, yn hylan, yn gyfforddus ac yn cynnwys yr adnoddau priodol. Dylech sicrhau bod gennych drefniadau priodol ar waith ar gyfer unrhyw argyfwng meddygol.</p> <p>1.2. Mae'r gyfraith yn cynnwys gofynion manwl ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y DU.</p> <p>1.3. Dylai bod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.</p> |
| <p>D14 Uniondeb yn eich maes proffesiynol.</p> | <p>1. Mae uniondeb yn golygu ymddwyn yn onest a didwyll. Gall diffyg uniondeb gael effaith andwyol ar ofal eich cleifion. Mae enghreifftiau'n cynnwys:</p> <p>1.1. Rhoi'ch lles a'ch buddiannau eich hun uwchlaw eich dyletswydd i'ch claf.</p> <p>1.2. Rhoi archwiliad neu driniaeth ddiangen neu ddi-fudd i'ch claf.</p> <p>1.3. Atal unrhyw ymchwiliad, triniaeth neu atgyfeiriad angenrheidiol yn fwriadol.</p> <p>1.4. Parhau â thriniaeth am gyfnod hwy na'r angen.</p> <p>1.5. Derbynn ffioedd atgyfeirio.</p> <p>1.6. Rhoi pwysau ar glaf i gael cyngor proffesiynol arall neu brynu cynnyrch.</p> <p>1.7. Argymhell gwasanaeth proffesiynol neu gynnyrch arall yn unswydd i wneud elw ariannol.</p> <p>1.8. Benthycu arian gan gleifion, neu dderbyn unrhyw fuddiant arall sy'n golygu eich bod chi'n elwa'n ariannol.</p> <p>2. Caniatáu hysbysebu a gwybodaeth gamarweiniol amdanoch chi a'ch gwaith. Dylech sicrhau:</p> <p>2.1. Bod eich hysbyseb yn gyfreithiol, gweddus a gonest yn unol â diffiniad yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol, fel Cod y DU ar Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiant a Marchnata Uniongyrchol Nas Darlledir (Cod CAP).</p> <p>2.2. Bod y wybodaeth am eich cymwysterau proffesiynol, trefniadau ymarfer a'r gwasanaethau a ddarperir gennych yn ffeithiol gywir ac o safon uchel.</p> <p>2.3. Nad ydych yn defnyddio unrhyw deitl sy'n awgrymu eich bod yn ymarferydd meddygol (oni bai eich bod yn ymarferydd meddygol cofrestredig), er nad yw hyn yn eich rhwystro rhag defnyddio'r teitl 'Doctor' os oes gennych radd PhD neu ddoethuriaeth arall a'i bod yn amlwg bod y teitl yn cyfeirio at hyn.</p> <p>2.4. Nad ydych yn creu cyhoeddusrwydd mor aml neu mewn</p> |

| | |
|--|--|
| | modd sy'n peri niwsans neu'n rhoi pobl eraill dan bwysau i ymateb. |
|--|--|

24 Safonau Ymarfer Osteopathig > PROFFESIYNOLDEB

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|---|
| <p>D15 Bod yn onest a dibynadwy yn eich trafodion ariannol, boed bersonol neu broffesiynol.</p> | <ol style="list-style-type: none"> 1. Dylech godi tâl yn gyfrifol, mewn ffordd sy'n osgoi dwyn anfri ar y proffesiwn. 2. Er mwyn osgoi unrhyw anghydfod ynghylch ffioedd, byddai'n ddefnyddiol pe baech chi'n sicrhau bod gwybodaeth am y ffioedd a godir gennych ar gael cyn unrhyw ymgynghoriad a thriniaeth, sy'n dangos beth sydd wedi'i gynnwys ym mhob ffi. Dylai unrhyw ffioedd ychwanegol fod yn glir a chymesur. 3. Dim ond os yw cynhyrchion neu wasanaethau o fudd i gleifion, yn eich barn broffesiynol chi, y gallwch eu hargymell i gleifion. 4. Dylech ddweud wrth eich cleifion os ydych yn derbyn unrhyw fuddion ariannol neu fudd arall am eu cyflwyno nhw i sefydliadau proffesiynol neu fasnachol eraill. Ni ddylech ganiatáu i sefydliad o'r fath ddefnyddio'ch enw chi at ddibenion hyrwyddo. 5. Dylech gadw cofnodion ariannol cadarn ar gyfer eich ymarfer. |
| <p>D16 Peidiwch â chamddefnyddio'ch statws proffesiynol.</p> | <ol style="list-style-type: none"> 1. Gall camddefnyddio'ch statws proffesiynol ddigwydd mewn sawl ffordd. Mae'n debyg mai'r enghraifft fwyaf difrifol yw methu sefydlu a chadw at derfynau priodol, boed yn rhywiol neu fel arall. 2. Gall methiant i sefydlu a chynnal terfynau rhywiol, yn enwedig, gael effaith hynod niweidiol ar gleifion, arwain at eich dileu o gofrestr y Gymdeithas Osteopathig Cyffredinol a dwyn anfri ar y proffesiwn. 3. Wrth sefydlu a chynnal terfynau rhywiol, dylech ystyried y canlynol: <ol style="list-style-type: none"> 3.1. Gall geiriau ac ymddygiad, yn ogystal â gweithredoedd mwy amlwg ac agored, gael eu camgymryd fel rhai rhywiol gan gleifion. 3.2. Dylech osgoi unrhyw ymddygiad a all gael ei ddehongli gan y claf fel gwahoddiad i berthynas rywiol. 3.3. Gall unrhyw gysylltiad corfforol heb ganiatâd dilys fod yn gyfystyr ag ymosodiad, gan arwain at atebolrwydd troseddol. 3.4. Eich cyfrifoldeb chi yw peidio ag ymateb i atyniad rhywiol tuag at, neu gan, gleifion. 3.5. Os ydych chi'n teimlo unrhyw atyniad rhywiol at glaf, dylech gael cyngor ynglŷn â gweithredu'n addas, er enghraifft gan gydweithiwr. Os ydych chi'n credu na |

| | |
|--|--|
| | <p>allwch chi barhau i fod yn wrthrychol a phroffesiynol, dylech atgyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.</p> <p>3.6. Ni ddylech gymryd mantais ar eich statws proffesiynol i gychwyn perthynas â chlaf. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yw dan eich gofal chi mwyach.</p> |
|--|--|

COD YMARFER

| SAFONAU | CANLLAWIAU |
|--|--|
| D16 (parhad) | <p>4. Gall osteopathiaid sy'n gweithio mewn cymunedau bach fod mewn sefyllfa lle maent yn trin ffrindiau neu berthnasau. Mewn achosion o'r fath, bydd sefydlu a chynnal terfynau proffesiynol clir yn helpu i sicrhau bod eich barn feddygol yn wrthrychol a'ch bod yn gallu darparu'r driniaeth angenrheidiol i'ch cleifion.</p> |
| D17 Cynnal enw da'r proffesiwn drwy'ch ymddygiad chi. | <p>1. Gall ffydd a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, ac enw da'r proffesiwn yn gyffredinol, gael ei danseilio gan ymddygiad proffesiynol neu bersonol osteopath. Dylech ystyried eich safle proffesiynol, hyd yn oed pan nad ydych chi'n gweithredu fel osteopath.</p> <p>2. Gall cynnal enw da'r proffesiwn gynnwys y canlynol:</p> <p>2.1. Gweithredu o fewn y gyfraith bob amser (gall collfarnau troseddol fod yn dystiolaeth nad yw osteopath yn addas i ymarfer).</p> <p>2.2. Peidio camddefnyddio alcohol neu gyffuriau.</p> <p>2.3. Peidio ymddwyn mewn modd ymosodol neu dreisgar yn eich bywyd personol neu broffesiynol.</p> <p>2.4. Dangos tosturi tuag at gleifion.</p> <p>2.5. Dangos cwrteisi proffesiynol at gydweithwyr.</p> <p>2.6. Peidio â gadael i anghydfod proffesiynol achosi i chi fethu cyrraedd y safonau disgwylidig.</p> <p>2.7. Peidio ffugio cofnodion neu ddogfennau eraill.</p> <p>2.8. Ymddwyn yn onest yn bersonol a phroffesiynol.</p> <p>2.9. Cynnal ymddygiad proffesiynol o'r un safon ar-lein, fel ym mhobman arall.</p> <p>Gweler hefyd: D10, D18</p> |
| D18 Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth bwysig am eich ymddygiad a'ch cymwyseddau i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. | <p>1. Dylech ddweud wrth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar unwaith os ydych:</p> <p>1.1. Wedi'ch cyhuddo, unrhyw le yn y byd, o drosedd sy'n ymwneud â'r canlynol:</p> <p>1.1.1. Trais.</p> <p>1.1.2. Troseddau rhywiol neu anweddustra.</p> <p>1.1.3. Anonestrwydd.</p> <p>1.1.4. Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau.</p> <p>1.2. Eich collfarnu o drosedd, unrhyw le yn y byd.</p> <p>1.3. Eich rhyddhau'n amodol am droseddu.</p> <p>1.4. Derbyn rhybudd gan yr heddlu.</p> <p>1.5. Eich disgyblu gan unrhyw sefydliad sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn gofal iechyd.</p> <p>1.6. Eich atal dros dro neu'ch gwahardd rhag ymarfer gan eich cyflogwr neu sefydliad tebyg oherwydd pryderon ynglŷn â'ch ymddygiad neu gymhwysedd.</p> <p>Gweler hefyd: D17</p> |

Geirfa

| | |
|-------------------------------|--|
| Archwiliad clinigol | Adolygiad systematig o ymarfer yr osteopath a'r gofal a ddarperir. Y nod yw gwella ansawdd gofal i gleifion. |
| Claf | Rhywun sydd wedi cael cyngor, asesiad a/neu ofal gan osteopath. |
| Clefyd trosglwyddadwy | Clefyd heintus y gellir ei drosglwyddo o un unigolyn i'r llall, naill ai'n uniongyrchol trwy gysylltiad neu'n anuniongyrchol trwy ffyrdd eraill. Mae clefydau trosglwyddadwy difrifol yn cynnwys HIV, Hepatitis B, Hepatitis C a Twbercwlosis (TB). |
| Cofnodion cleifion | Cofnod cyfredol o ofal cleifion, ar bapur neu ar gyfrifiadur. Dylai gynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn y canllawiau sy'n gysylltiedig â safon C8. |
| Cwmni | Oedolyn sy'n aros gyda'r claf yn ystod ei ymgynghoriad a/neu driniaeth. Gall fod yn ffrind neu'n aelod o deulu'r claf, neu unigolyn addas o'r practis. |
| Cynhyrchion | Eitemau y gellid eu gwerthu neu eu benthyca i gleifion gan osteopath. |
| Dadansoddiad o'r achos | Adolygiad a thrafodaeth a rennir ynglŷn ag achosion clinigol unigol er mwyn cynorthwyo datblygiad proffesiynol parhaus yr osteopath ei hun. |
| Dadwisgo | Tynnu dillad i ddinoethi rhannau o'r corff. Bydd hyn yn cynnwys tynnu siwmpwr neu grys i ddatgelu rhan uchaf/canol y cefn a'r ysgwyddau, neu dynnu trowsus i ddatgelu rhan ucha'r cluniau. Mae hefyd yn cynnwys tynnu dilledyn sy'n cael ei wisgo am resymau crefyddol neu ddiwylliannol a thynnu dillad isaf. |
| Digwyddiad difrifol | Digwyddiad a gafodd effaith arwyddocaol mewn rhyw ffordd ar addysg bersonol a/neu broffesiynol yr osteopath. Yn gyffredinol, digwyddiad sy'n achosi i'r osteopath oedi, meddwl ac adlewyrchu. |
| Dylai/Dylech | Nodi sut y gellir bodloni safon. Fe'i defnyddir hefyd lle nad yw dyletswydd neu egwyddor arbennig yn berthnasol i bob sefyllfa neu amgylchiadau, neu lle gallai ffactorau y tu hwnt i reolaeth osteopath effeithio ar ei allu i gydymffurfio â'r canllawiau neu sut mae'n gwneud hynny. |
| Gall | Mae gan osteopathiaid ddewis i gymryd camau penodol neu beidio. Mae'r term 'gall' neu 'gallech chi' yn cael ei ddefnyddio gan amlaf i gyflwyno'r holl ddewisiadau gwahanol sydd gan osteopath. Gweler hefyd 'rhaid'. |
| Gallu meddyliol | Nid oes gan unigolyn ddigon o allu mewn perthynas â mater penodol, os nad yw'n gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun ynglŷn â'r mater hwnnw oherwydd nam, neu amhariad, ar y meddwl neu'r ymennydd. Does dim gwahaniaeth ai nam parhaol neu dros dro ydyw. |
| Gweithiwr cyswllt | Osteopath sydd wedi'i gyflogi neu gontractio i weithio mewn practis, nad yw'n bennaeth y practis. |
| Hanes | Ffeithiau perthnasol a gafwyd gan glaf er mwyn llywio archwiliad a thriniaeth osteopathig. |
| Hunanfyfrio | Ystyriaeth ddifrifol o'ch gwybodaeth, sgiliau, cymeriad, gweithredoedd a chymhelliant eich hun mewn perthynas ag ymarfer osteopathig. |
| Myfyriwr | Myfyriwr osteopathi yw rhywun sy'n dilyn cwrs osteopathi cyn-gofestru a gydnabyddir gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, sy'n arwain at |

| | |
|---------------------------|--|
| | ddyfarnu Cymhwyster Cydnabyddedig ac sy'n caniatáu i'r myfyriwr graddedig wneud cais i gofrestru gyda'r Cyngor. Ystyr darpar fyfyrwr osteopathi yw rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa ym maes osteopathi. |
| Rhaid | Mae'r osteopath yn gorfod cydymffurfio â'r gofyniad dan sylw. |
| Sgiliau cyffwrddol | Sgiliau cyffwrdd tra datblygedig, a ddefnyddir gan osteopathiaid wrth archwilio a thrin cleifion. |

Byrfoddau

ASA Awdurdod Safonau Hysbysebu
CAP Pwyllgor Ymarfer Hysbysebu
DPP Datblygiad Proffesiynol Parhaus
GOSc Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
PhD Doethur mewn Athroniaeth

Datganiad o newidiadau

Dan adran 13(3) o Ddeddf Osteopathiaid 1993 (fel y'i diwygiwyd), mae'n rhaid i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol roi cyhoeddusrwydd eang i unrhyw newidiadau a wnaed i'r *Safonau Hyfedredd* a rhoi o leiaf blwyddyn o rybudd cyn rhoi'r newidiadau ar waith. Mae hyn yn caniatáu i osteopathiaid baratoi ar gyfer bodloni'r safonau newydd drwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Er cymhariaeth, mae'r safonau cyfredol ar gael yn *Standard 2000 – Standard of Proficiency* a'r *Code of Practice*, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn www.osteopathy.org.uk

Cyflwynwyd y newidiadau penodol canlynol i'r *Standard of Proficiency*:

- > Mae Galluedd A ("*Capability A*") bellach wedi'i gynnwys yn Adran B, gyda'r testun diwygiedig yn B2.
- > Mae Galluedd B wedi'i gynnwys yn Adran B, gyda'r testun diwygiedig yn B1.
- > Mae Galluedd C wedi'i ddileu'n gyffredinol, gan ei fod wedi'i gwmpasu gan y datganiadau Cod o dan bob Adran.
- > Mae Galluedd D wedi'i rannu rhwng Adrannau B a D, gyda'r rhan fwyaf o ddatganiadau wedi'u cwmpasu yn y Cod diwygiedig yn B3, B4, D8 a D10. Dilëwyd y cyfeiriadau at ofynion corfforol er mwyn osgoi gwahaniaethu.
- > Mae Galluedd E wedi'i gynnwys yn Adran A.
- > Mae Galluedd F wedi'i gynnwys yn Adran D dan D2 a D3.
- > Mae Galluedd G wedi'i gynnwys yn Adran D dan D1 a datganiadau Cod D8 a D9.
- > Mae Galluedd H wedi'i gynnwys yn Adran D1 a'r datganiadau Cod yn gyffredinol.
- > Mae Galluedd I wedi'u gynnwys yn natganiad B4.
- > Mae Galluedd J wedi'i gynnwys yn y datganiadau dan Adrannau A ac C a datganiadau Cod D3 a D4.
- > Mae Galluedd K – sy'n canolbwyntio ar dechnegau cyffyrddol – wedi'i ddileu, gan ei fod yn rhan o'r gwerthusiad a'r driniaeth a ddarperir gan osteopath. Felly, mae wedi'i gynnwys yn natganiadau Adran C, er nad oes cyfeiriad penodol ato.
- > Mae Galluedd L wedi'i gynnwys yn natganiadau Adran C.
- > Mae Galluedd M wedi'i gynnwys yn natganiadau Adran C.
- > Mae Galluedd N wedi'i gynnwys yn natganiadau Adran C.
- > Mae Galluedd O wedi'i gynnwys yn natganiadau Adran C.

> Mae Galluedd P wedi'i gynnwys yn natganiadau Cod C8, D2, D3, D5, D6, D8, D10, D11, D12, D13, D14 a D15.

Mynegai

Mae'r rhifau mewn print tywyll yn dynodi adran allweddol am y pwnc dan sylw.

| | |
|--|---|
| Achosion dadansoddiad o hanes | B2(1.11.4), B4(1.2.4) C1, C7(1.1) |
| Adborth gydweithwyr a chleifion, gan | B2(1.11), B4(2, 3) |
| Addasrwydd i ymarfer | D18 |
| Addysgu | D8(6) |
| Adwaith anffafriol | C2(1.8) |
| Amgylchedd gwaith | D8(2) |
| Anabledd | A2(3), D4(1) |
| Archwiliad/triniaeth â chaniatâd caniatâd ysgrifenedig cwmni, defnyddio ffrindiau a pherthnasau heb ganiatâd plant a phobl ifanc rectwm rhannau preifat y wain | A2-A5 , B2,B3, C1, C2, C3-C7 , D4, D8-D16 A4 A4(8, 9) A3(1.1), C6(5-8) , C8(1.14) D16(4) A4(3) A4(12-20) , C6(5.2) A2(6), A4(9) A2(5-6), A4(8-9) , C6(5.1) A2(6), A4(9) |
| Archwiliad/triniaeth o'r wain | A2(6), A4(9) |
| Archwiliadau/triniaeth rectwm | A2(6), A4(9) |
| Argyfwng, meddygol | D11(1.1) |
| Argymell | D15(3-4) |
| Ariannol cofnodion data elw/budd gweithgareddau | D2(1.2), D15(5) D2(1.2) D14(1.5-1.8), D15(3-4) D14(1.5-1.8), D15 |
| Arsylwr, yn yr ymgynghoriad | C8(1.15), D8(7-9) |
| Atgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ffioedd | A5(2.1), B2(1.3), B3(2.3), C2(1.8), C7(1.5), D1(1.4), D4(2, 4), D16(3.5) D14(1.5) |
| Camddefnyddio alcohol/cyffuriau statws proffesiynol | D17(2.2) D16 |
| Caniatâd/cydsyniad archwiliad/triniaeth arsylwyr, cael cofnodi cofnodion, rhyddhau dilys diystyru ffurflen gallu oedolion, anghymwys myfyrwyr | A4 D8(9) A4 A4(7, 9) D6 A4 ,D16(3.3) A4(19-20) A4(9), C8(1.8), D6(6.3) A4(10-11, 14-20) , C6(5.3), D6(7.3) A4(10-11), D6(7.3) D8(7.4, 9) |

| | |
|---|--|
| plant a phobl ifanc rhannau preifat ysgrifenedig | A4(12-20) A4(8-9) A4(6, 7, 9), D6(6.3) |
| Clefydau, trosglwyddadwy | D10(1.4), D12 |
| Cleifion adborth gan agored i niwed | B2(1.11.2), B4(1.2.2) A4(10-20) , C4, C6(5) |
| amddiffyn anabledd anghenion caniatâd/cydsyniad credoau crefydd cyfeiriadedd rhywiol deall derbyn/gwrthod diogelwch disgwyliadau diwylliant dymuniadau ethnigrwydd gallu i gallu meddyliol gwerthuso gwrthod triniaeth gwybodaeth hawliau i ddatgelu gwybodaeth i fyfyrwyr/arsylwyr i ryddhau cofnodion laith oedran partneriaeth â penderfyniadau problemau gyda rhywedd risg statws priodasol swildod treisgar triniaeth ymosodol | C9 A2(3), D4(1) A2(3-4) , D16 A4, D6(6-8) A2(3), A4(8), D4(1) A2(3), C6(2), D4(1) A2(3), D4(1) D4(4) C9 A3(1.2), C5, C7(2) A2(3), C6(2) A2 A2(3), D4(1) A4(7), A4(10-11), C6(5.3), D6(7.3) A4(10-11, 16, 18) C1-C2 A4(20) A3 , A4(5), C8(1.6), D6(1.3), D7(2) A3(1.1), D6 D6(6-9) D8(7.4), D8(9.2) D6(1-4), D6(6) A2(2,3), A3(3,4) A2(3), D4(1) A5 A5, A6(1.2) D4(4) A2(3), D4(1) A3(2-3) D4(1) C6 D6(7.2, 8), D17(2.3) A2(5), A3, A4(2, 5, 8, 10, 14) D4(4.1) |
| Clinigol archwiliadau barn lleoliad | B2(1.11.4), B4(1.2.4) B2(1.3), D16(4) D8(7) |
| penderfyniadau ymateb ymchwiliadau | B2(1.4, 1.9) C8(1.12) C1(1.4), C7(1.2) |
| <i>Cofnodion cleifion – gweler Cofnodion</i> | |
| Cofnodion ariannol cadw cofnodi caniatâd cofnodi cwmni cofnodi'r cyngor a roddwyd cofnodi'r myfyriwr/arsylwr diogelu data diogelwch hawl i weld | A4(9), C6(8), C7(2.1) C8, D6(3-4), D8(1, 2.2, 9), D17(2.7) D15(5) D6(3-4) , D8(2.2) A4(9), C8(1.8), D8(9.5) C8(1.14) C8(1.6) D8(9) D6(5) D6(1, 3-4) D6(2) |

| | |
|---|--|
| trosglwyddo gofal | D8(1) |
| Collfarn droseddol | D18 |
| Credoau chi'ch hun cleifion | D4 A2(3), D4(1) |
| Cwmni | A3(1.1), C6(5-8) , C8(1.14) |
| Cwynion | A2(1), B4(3), D7 , D8(2.4) |
| Cydraddoldeb Cydraddoldeb ac amrywiaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 | A2(3), D4(1-2), D5 , D8(2.7) D5 |
| Cydweithwyr adborth gan cydweithio â cymorth gan goruchwylio iechyd/perfformiad perthynas â sylwadau am ymddygiad | B2(1.11.3), B4(1.2.3) D8 B4(2-3), D16(3.5) D8(5,7) C9 D1, D8 D9 C9 |
| Cyflwyno cwyn | C1(1.1) |
| Cyfrinachedd cleifion data, gwybodaeth, | D6 , D8(2.1) D2-D3(1.2) D2-D3(1.2), D6 |
| <i>Cyfrinachedd cleifion – gweler Cyfrinachedd</i> | |
| <i>Cyhoeddusrwydd – gweler Hysbysebu a chyhoeddusrwydd</i> | |
| Cymhwysedd, terfynau | B3 , C2(1.2.3), C7(1.4) |
| Cymorth gan cydweithwyr cymdeithas broffesiynol | B3(2), B4(2-3) B4(3) |
| Cyngor clefydau trosglwyddadwy, ar cleifion cydweithwyr, gan cyfreithiol hunanofal | D10(1.4) C8(1.6), D4(2), D8(2) B3(2), B4(3), D16(3.5) A4(20) A5(2.2), A6 |
| Cyngor Osteopathig Cyffredinol | A4(3, 11, 13, 18, 20), C9(1.3), D7(7), D8(7), D10(1.3), D18 |
| Cynhyrchion, gwerthu/argymell | D14(1.6-1.7), D15(3-4) |
| Cysylltiadau cleifion cydweithwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, eraill D8(2.3) | C3 , D8(2.3), D16 D7-D9 |
| Data ariannol a rheoli clinigol Deddf Diogelu Data diogelwch/cadw ymarfer | D2-D3 B2(1.9) D6(5) D2-D3 D2-D3 |
| Diagnosis, ymarferol | C2(1.2.1) , C7(1.3) |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus | B4 |
| Datgelu gwybodaeth am glaf heb ganiatâd rhwymedigaeth | D6 D6(8) D6(7-8) |
| Dehonglydd | A3(4) |
| Doctor, defnyddio teitl | D14(2.3) |
| Ffioedd | D14(1.5), D15(1, 2) |

| | |
|--|--|
| Ffynonellau gofal eraill | B2(1.3), B3(2.3) , C2(1.8), C7(1.5), D1, D4(4), D16(3.5) |
| Gofynion cyfreithiol | A4(3), A4(10-11), C9(3), D2(1.2), D5, D8(4) , D13 |
| Gweithdrefn gwyno | D7 |
| Gweithdrefnau trosglwyddo | D8(1) |
| Gweithgareddau masnachol | D14-D15 |
| Gweithiwr cyswllt/cynorthwydd | D8(3) |
| Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, arall | A5(2.1), A6(1.1), B2(1.3), B3(2), C2(1.8), D1, D4(4), D6(6), D8, D9, D16(3.5) |
| cyfraniadau at ofal cleifion | D1 |
| Gwerthuso | B2(1.8), C1, D1(1.3, 1.5) |
| Gwybodaeth caniatâd i ddatgelu clinigol cyfrinachedd cywirdeb datgelu systemau technoleg ymarfer | D6(6) C6(2.3) D2-D3, D6 C8(3), D14(2) D6 D2-D3 D2-D3 D7(2) |
| Hunanfyfyrion | B2(1.11.1), B4(1.2.1) |
| Hylendid | D11-D13 |
| Hysbysebu a chyhoedduswydd | D14(2) |
| lechyd chi'ch hun cydweithwyr y cyhoedd | B1(1.2) B2(1.10), D10 C9(1) D10(1.4), D11-D12 |
| lechyd a diogelwch | D8(2.6), D13 |
| lechyd y cyhoedd, hyrwyddo | D11 |
| Meddygon teulu, cyfathrebu â | A6(1.1) |
| Myfyrwyr osteopathi | C8(1.15), D8(7-9) |
| <i>Obtaining Consent</i> (taflen GOsC) | A4(11, 13, 18, 20) |
| Perthynas rywiol â chleifion | D16(1-3) |
| Plant caniatâd cofnodion, cadw cyfrifoldeb rhieni deddf amddiffyn trin | A4(13-20) D6(3.2) A4(13-18) C9(3) A4(12-20), C6(5.2) |
| Proffesiynol barn cymdeithas statws terfynau uniondeb ymddygiad | A4(14, 17), B3(1), D15(3) B4(3), D7(6) D16, D17 D16 D14, D15 D4(3) |
| Proffesiynoldeb | D1-18 |
| Pryderon, codi/cofnodi | C9(1) |
| Risg, gwybodaeth am | A3(2-3) |
| Sgiliau a gwybodaeth diweddaraf osteopathig | B4 B1-B4 |
| Sgiliau cyfathrebu | A1-A3 |
| Staff | D8(2-5) |
| Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth | D6(5) |
| Terfynau, cynnal | D16 |
| Triniaeth atal | D14(1.3) |

| | |
|---|--|
| caniatâd | A4 , C8(1.8) |
| cynllun | A4(4), A5(1), C1-C2 , C7(1.3),C8(1.7) |
| deall | A3, A4 (2, 5, 8, 10, 11, 14, 17) |
| dewisiadau eraill | A3(2), A6(1.2), B2(1.3), C2(1.8) |
| diangen | D14(1.2, 1.4) |
| effeithiau | C2(1.2.4, 1.5) |
| gwrthod | A4(20) |
| heb ganiatâd | A4(3) |
| peidio â pharhau | D4(4) |
| ymateb ôl-driniaeth | C2(1.7) |
| <i>Triniaeth– gweler Archwiliad/triniaeth</i> | |
| Uniondeb, proffesiynol | D14 |
| Ymarfer | |
| amgylchedd | C7(2), D8(2.5), D11-13 |
| data | D2(1.2) |
| gwybodaeth | C8(3), D2-3, D14(2) , D15(2) |
| iechyd a diogelwch | D8(2.6), D11-13 |
| practis bach | B4(2) |
| rheoli | D2-3 |
| Ymateb i driniaeth | C2(1.5-1.8) |
| Ymchwil | B2(1), B3(3, 4), C2(1.2.3) |
| Ymddiriedaeth | C3(2) ,D7(5),D17(1) |
| Ymddygiad | |
| chi'ch hun | C3-C6 , D4(3),D5, D7-D9, D14-D18 |
| cleifion | D4(4), D6(7.2) |
| staff | D8 |
| Ymddygiad | |
| ar-lein | D17(2.9) |
| chi'ch hun | A2,A3, C3-C6 , C9, D4-D18 |
| cydweithiwr | C9(1) |
| myfyrwyr | D8(7.3) |
| staff | D6(1.2), D8(2) |
| Ymweliadau cartref | C6(5.4), C7(2) |
| Yswiriant | |
| atebolrwydd cyhoeddus | D11-D13(1.3) |
| indemniad proffesiynol | D7(6), D8(5) |

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Osteopathy House

176 Tower Bridge Road

Llundain SE1 3LU

ffôn: 020 7357 6655

www.osteopathy.org.uk